# Adennill Ysgubion Strydoedd a Charthion Gylïau

**Canllawiau i Awdurdodau Lleol (ALlau) yng Nghymru**

**Cynhyrchwyd y canllawiau hyn i gynorthwyo â chydymffurfiaeth statudol a hysbysu cywir ar gyfer y Cynllun Lwfansau Tirlenwi a'r Targedau Adennill Statudol i Awdurdodau Lleol.**

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | Tud. 1 |
| A - Storio a dad-ddyfrio ysgubion strydoedd | Tud. 2 |
| B - Adennill ysgubion strydoedd a charthion gylïau nas triniwyd | Tud. 3 |
| C - Adennill ysgubion strydoedd a charthion gylïau wedi'u dad-ddyfrio a driniwyd | Tud. 4 |
| D - Gwaredu ysgubion strydoedd a charthion gylïau | Tud. 6 |
| Rhagor o Wybodaeth | Tud. 8 |
| Dolenni i ddogfennau eraill | Tud. 8 |


## Cyflwyniad

Gwastraffoedd nas didolwyd yn eu ffynhonnell yw ysgubion strydoedd a charthion gylïau. Mwyfwy mae awdurdodau lleol yn hysbysu bod ysgubion strydoedd a charthion gylïau wedi'u dad-ddyfrio wedi cael eu hadennill a'u dargyfeirio o safleoedd tirlenwi.
Mae'r canllawiau hyn yn ymwneud ag ysgubion strydoedd a charthion gylïau a gesglir gan awdurdodau lleol neu eu contractwyr.

Mae angen dad-ddyfrio **carthion gylïau**, gan dynnu'r hylif o dan ganiatâd gollwng i garthffos. Mae gan y gwaddodion soled sy'n weddill gynhwysiad dŵr cymharol uchel, ac mae'n bosibl bod ynddynt fetelau trwm, halogion ffisegol eraill a llawer o ddeunydd organaidd trwytholchadwy. Mae'r canllawiau hyn yn ymdrin â gwaredu ac adennill y gwaddod soled.

Mae **ysgubion strydoedd** (a elwir hefyd yn ddeunyddiau glanhau strydoedd) yn ddeunyddiau sychach, mwy cymysg, gan gynnwys dail, graean, sbwriel, gwydr, olewau, papur, plastigau a chaniau. Mae'n bosibl bod ynddynt fetelau trwm, halogion eraill (e.e. halen ffyrdd) a llawer o ddeunydd organaidd trwytholchadwy.

Ar hyn o bryd, mae gan yr holl ysgubion strydoedd a charthion gylïau a gesglir gan awdurdodau lleol y cod gwastraff[1] nad yw'n beryglus 20 03 03: gweddillion glanhau strydoedd, er ei bod yn bosibl bod y ddau fath o wastraff yn cynnwys sylweddau peryglus.

1 Ystyr 'Cod gwastraff' yw'r cod chwe digid sy'n dynodi gwastraff yn unol â Rheoliadau'r Rhestr Wastraffoedd (Cymru) 2005. Mae'r Rheoliadau yn trosi gwastraffoedd y Catalog Gwastraff Ewropeaidd i ddeddfwriaeth ddomestig. Weithiau cyfeirir at godau gwastraff fel codau Rhestr Wastraffoedd neu godau Catalog Gwastraff Ewropeaidd hefyd.

Fel cynhyrchydd neu ddaliwr gwastraff, mae dyletswydd gofal arnoch i sicrhau eich bod yn disgrifio'ch gwastraff ac yn nodi unrhyw sylweddau peryglus posibl a all ei gwneud yn ofynnol i'r gwastraff gael ei drafod, ei drin neu ei waredu gydag unrhyw ragofalon penodol.

Y cod gwastraff nad yw'n beryglus 20 02 01 sydd gan wastraff a gesglir o barciau a gerddi ar wahân i gylchdeithiau glanhau strydoedd. Mae'r cod gwastraff hwn yn dderbyniol o dan rai esemptiadau penodol (yn amodol ar fodloni'r meini prawf penodol ar gyfer esemptio) ac mae'n caniatáu ar gyfer compostio. Dylid hysbysu ar WasteDataFlow (WDF) am y gwastraff hwn ar wahân i wastraffoedd glanhau strydoedd at ddibenion y Cynllun Lwfansau Tirlenwi a'r Targedau Adennill i Awdurdodau Lleol.

Ceir rheolaethau rheoliadol ar adennill ac ar waredu gwastraffoedd ysgubion strydoedd a charthion gylïau ac esbonnir y rhain ymhellach isod.

---

Os honnir adennill at ddibenion y Cynllun Lwfansau Tirlenwi a'r Targedau Adennill i Awdurdodau Lleol, rhaid i'r Awdurdodau Lleol sicrhau y gallant gadarnhau bod adennill cyfreithlon wedi digwydd ar safle sydd â thrwydded i adennill y gwastraff penodol hwnnw. O ran ailgylchu ac adennill yn gyffredinol (nid ar gyfer ysgubion strydoedd a charthion gylïau'n unig), dylai prosesau a gweithdrefnau awdurdodau lleol eu galluogi i gadarnhau:

a) y safleoedd a ddefnyddir ac a hysbysir yng Nghwestiwn 100 o WasteDataFlow (WDF); a

b) bod y safleoedd yn meddu ar drwydded i ailgylchu neu adennill y gwastraff, neu ar esemptiad gwastraff perthnasol ar gyfer y gweithgaredd; a

c) bod y gwastraff wedi cael ei ailgylchu neu ei adennill mewn gwirionedd yn unol â gofynion y Targedau Adennill i Awdurdodau Lleol.

## A Storio a dad-ddyfrio Ysgubion Strydoedd

Gellir storio ysgubion strydoedd dros dro o dan esemptiad gwastraff mewn man a reolir gan y cynhyrchydd (nad rheoli gwastraff yw ei brif fusnes). Gall awdurdodau lleol Cymru defnyddio'r esemptiad hwn trwy gludo gwastraff o ysgubion strydoedd yn ôl i'w iardiau i'w gadw dros dro, yn ddarostyngedig i amodau penodol.

Ni ddylid storio a dad-ddyfrio ysgubion strydoedd ar ymyl ffordd, mewn cilfach barcio nac mewn cae, oherwydd y perygl o lygru dŵr wyneb a dŵr daear. Dylid storio'r gwastraff a'i ddad-ddyfrio ar wyneb anhydraidd â rhwydwaith draenio wedi'i selio.

Yn achos **ysgubion strydoedd yn unig**, ni fyddwn yn mynnu trwydded ar gyfer dad-ddyfrio sy'n digwydd wrth eu storio dros dro mewn man casglu, os cedwir at amodau penodol. Mae'r gofynion ar gael yn natganiad safbwynt rheoliadol Asiantaeth yr Amgylchedd sef *Dad-ddyfrio Ysgubion Strydoedd*[2] sydd wedi cael ei fabwysiadu gan CNC.

**Mae angen trwydded ar gyfer dad-ddyfrio carthion gylïau ac nid yw'r datganiad safbwynt rheoliadol ar ddad-ddyfrio ysgubion strydoedd yn cynnwys hyn.** Yn aml, hylif yw'r carthion gylïau adeg eu casglu, ac ni ellir eu hanfon i safle tirlenwi'n uniongyrchol. Oherwydd eu natur a allai fod yn beryglus, mae hefyd yn anodd sefydlu gweithdrefn safonol ar gyfer trafod, trin a gwaredu'r gwastraff hwn.

---

[2] http://www.environment-agency.gov.uk/static/documents/Business/MWRP_RPS_065_v2_Dewatering_of_street_sweepings_May_2012.pdf

## B Adennill ysgubion strydoedd a charthion gylïau nas triniwyd

Yn y cyd-destun hwn, ystyr ysgubion strydoedd a charthion gylïau wedi'u dad-ddyfrio nas triniwyd yw pan nad yw'r gwastraff wedi cael unrhyw driniaeth ffisegol neu fiolegol sy'n arwain at newid nodweddion y gwastraff. Nid yw dad-ddyfrio ar ei ben ei hun yn newid cod gwastraff y gwastraffoedd hyn, felly byddant yn cadw'r cod gwastraff 20 03 03.

### B1 A ellir dynodi ysgubion strydoedd a charthion gylïau nas triniwyd yn wastraff a adenillwyd ar safle tirlenwi?

Y mae'n annhebyg y bydd y mathau hyn o wastraff yn cyflawni gofynion deunyddiau adfer y gellir eu defnyddio uwchlaw'r haen gapio.

Eithr lle bo'r drwydded yn awdurdodi'n **benodol** ddefnyddio'r naill fath neu'r llall o wastraff ar gyfer adfer, y mae'n bosibl y gellid eu hystyried yn wastraff sydd wedi'i adennill, ar yr amod y gellir cyflawni'r amodau penodol canlynol:

- y defnyddir y gwastraffoedd uwchlaw'r lefel capio terfynol (ar gyfer adfer) **ac**
- y mae'r gwastraffoedd yn addas at y defnydd hwnnw (gan ystyried eu nodweddion cemegol a ffisegol, a dyluniad yr haen adfer).

**Nid adennill** yw defnyddio ysgubion strydoedd a charthion gylïau wedi'i dad-ddyfrio nas triniwyd ar safle tirlenwi fel gorchudd dyddiol, ar gyfer ffyrdd y safle neu fel haen feddal ar waelod cell newydd. Rhaid hysbysu'r rhain fel gwaredu gwastraff ar safle tirlenwi ar WDF er mwyn cydymffurfio â threfnau hysbysu'r Cynllun Lwfansau Tirlenwi a'r Targedau Adennill i Awdurdodau Lleol.

### B2 A ellir compostio neu dreulio ysgubion strydoedd a charthion gylïau nas triniwyd?

Na ellir, ni ystyrir ysgubion strydoedd a charthion gylïau nas triniwyd yn wastraffoedd derbyniol ar gyfer compostio neu dreulio anaerobig. Mae'n bosibl bod ynddynt wastraff anfiodiraddadwy a halogion na fyddant yn cael eu trin gan broses aerobig neu anaerobig yn unig.

Fel arall, mae'n bosibl y gallai safle triniaeth fiolegol fecanyddol gael caniatâd i dderbyn gwastraff cod 20 03 03 ar gyfer triniaeth (h.y. ysgubion strydoedd a charthion gylïau nas triniwyd) ac y bydd y broses yn cynhyrchu deunydd tebyg i gompost o'r ffracsiwn organig heb yr angen am ragor o driniaeth fiolegol. Gweler *C3* i gael rhagor o wybodaeth am y math hwn o driniaeth.

### B3 A ellir defnyddio dail a gesglir o strydoedd mewn casgliadau penodol tymhorol i gynhyrchu compost neu weddillion treuliad?

Na ellir, mae gwastraff o gasgliadau penodol i ysgubo dail o strydoedd yn dal i fod â chod gwastraff 20 03 03. Mae'n amrywiol ei natur, yn cynnwys graean, dŵr, sbwriel a dail ac mae hefyd yn debygol o gynnwys amrywiaeth o halogion ffisegol, biolegol a chemegol gan gynnwys gwydr, plastig a metel, baw cŵn, anifeiliaid bach wedi marw, halen a llygryddion o ffyrdd a cherbydau.

Nododd ein canllawiau i awdurdodau lleol yn 2012 fod ysgubion dail o strydoedd yn debygol o fod wedi'u halogi ac felly eu bod yn anaddas ar gyfer compostio a'u gwasgaru ar dir amaethyddol wedi hynny.

Yn dilyn hyn, trefnwyd prawf trwy'r Organics Recycling Group (ORG) (y prif gorff masnach i gompostwyr) yn 2012-13 i geisio canfod yr amgylchiadau generig lle gellid casglu'r deunyddiau hyn a'u compostio heb beryglu ansawdd a diogelwch y compost. Darparodd y profion dystiolaeth o lefelau amrywiol iawn o halogi gan hydrocarbonau aromatig polysyclig (PAH), sydd yn aml yn gysylltiedig ag allyriadau cerbydau. Canfuwyd bod lefelau

hydrocarbonau aromatig polysyclig lawer yn uwch mewn ysgubion dail o strydoedd a'r deunydd wedi'i gompostio nag yn y deunyddiau eraill. Nid ydynt yn fioddiraddadwy a gallent fod yn niweidiol i iechyd pobl.

**O gofio'r halogi hwn, nid yw ein safbwynt ni wedi newid. Rydym yn barnu ystyried bod y deunydd hwn yn anaddas ar gyfer compostio pan fo'r deunydd a gynhyrchir wedi'i fwriadu at ddefnydd amaethyddol neu arddwriaethol.** Fodd bynnag, mae'n bosibl y byddant yn addas i gynhyrchu deunydd tebyg i gompost i'w wasgaru ar dir i'w adfer, ei adnewyddu a'i wella lle bwriedir gosod datblygiadau diwydiannol neu rai eraill o waith dyn yn unol â Thrwydded Amgylcheddol berthnasol. Bydd y deunydd hwn sy'n debyg i gompost yn dal i fod yn wastraff ac felly yn destun rheolaethau ar wastraff.

### B4 A ellir adennill ysgubion strydoedd a charthion gylïau nas triniwyd fel cerrig, graean a gronynnau mân?

Na ellir. Os caiff gronynnau mân neu gerrig a graean o ysgubion strydoedd a charthion gylïau eu cymysgu gyda gwastraffoedd eraill, ni ellir newid y cod gwastraff 20 03 03. Ni ellir ail-godio'r gwastraff cymysg fel deunydd anadweithiol (e.e. codau gwastraff 17 05 04 neu 20 02 02.) ar gyfer ei waredu nac fel deunydd adfer.

### B5 A ellir adennill ysgubion strydoedd a charthion gylïau nas triniwyd fel cynnyrch, a'i werthu i gyfleusterau diwastraff (e.e. y diwydiant agregau, gwneud ffyrdd, adeiladu)?

Na ellir. Mae yna Brotocol Ansawdd ar gyfer cynhyrchu agregau o wastraff anadweithiol. Mae Atodiad C i'r Protocol yn nodi, fesul cod gwastraff, y gwastraffoedd y gellir eu derbyn i fodloni gofynion y protocol. Mae ysgubion strydoedd a charthion gylïau nas triniwyd wedi'u heithrio o'r rhestr hon (cod gwastraff 20 03 03).

## C Adennill ysgubion strydoedd a charthion gylïau wedi'u dad-ddyfrio a driniwyd sydd wedi cael triniaeth ffisegol a/neu fiolegol i newid eu nodweddion

Yn y cyd-destun hwn, ystyr ysgubion strydoedd a charthion gylïau wedi'u dad-ddyfrio a driniwyd yw gwastraff sydd wedi cael triniaeth ffisegol neu fiolegol sy'n newid ei nodweddion (h.y. gwahanwyd y gwastraff i'w ddarnau cydrannol). Gellir trin ysgubion strydoedd a charthion gylïau wedi'u dad-ddyfrio trwy brosesau mecanyddol a/neu fiolegol i adennill gwahanol ffracsiynau, gan gynnwys gronynnau mân organig, graean a cherrig, tywod a gronynnau mân eraill.

Rhaid trin y gwastraff o dan drwydded briodol, megis mewn cyfleuster a all dderbyn gwastraff cod 20 03 03 i gael ei drin e.e. cyfleuster adennill mecanyddol neu safle triniaeth fiolegol fecanyddol. Bydd cynnyrch canlyniadol y prosesau trin hyn yn wastraff Pennod 19, ac wedi'i gyfyngu i'w ddefnyddio o dan safleoedd trwyddedig neu esempt a all dderbyn gwastraff a ddynodir o dan y cod gwastraff Pennod 19 perthnasol.

### C1 A ellir defnyddio ysgubion strydoedd a charthion gylïau a driniwyd i gynhyrchu compost neu weddillion treuliad sy'n bodloni'r PAS neu Brotocol Ansawdd perthnasol?

Na ellir, oherwydd ni chydnabyddir ysgubion strydoedd a charthion gylïau yn wastraffoedd a ddidolwyd yn eu ffynhonnell o dan Brotocolau Ansawdd treulio anaerobig a chompostio.

Yn achos y PAS a'r Protocol Gwastraff[3] perthnasol, rhaid i'r gwastraffoedd a fewnbynnir

3 Ystyrir compost sy'n bodloni y fanyleb PAS100 yn gompost o ansawdd ond yn wastraff o hyd. Mae angen i gynhyrchydd ddilyn y Protocol Ansawdd Compost a bodloni PAS100 i gynhyrchu compost o ansawdd nad yw'n wastraff mwyach. Yn yr un modd, ystyrir gweddillion treuliad anaerobig sy'n bodloni y fanyleb PAS100 yn weddillion treuliad o ansawdd, ond yn wastraff o hyd. Mae angen i gynhyrchydd ddilyn y Protocol Ansawdd Gweddillion Treuliad Anaerobig a bodloni PAS110 i gynhyrchu gweddillion treuliad o ansawdd nad yw'n

fod wedi'u casglu ar wahân i wastraffoedd anfiodiraddadwy, a heb eu cymysgu gyda gwastraffoedd a allai halogi. Mae Atodiad B i'r Protocol Ansawdd yn nodi'r gwastraffoedd y gellir eu derbyn i fodloni PAS a'r Protocolau Ansawdd.

### C2 Os caiff ysgubion strydoedd a charthion gylïau a driniwyd eu cymysgu gyda gwastraff bioddiraddadwy arall, a ellir eu defnyddio i gynhyrchu compost neu weddillion treuliad sy'n bodloni'r PAS neu'r Protocol Ansawdd perthnasol?

Na ellir. Pe bai ysgubion strydoedd yn cael eu trin yn fecanyddol ac yna eu cymysgu gyda gwastraff bioddiraddadwy, ni fyddent yn fewnbwn derbyniol fel y'i rhestrir yn Atodiad B i'r Protocolau Ansawdd o hyd. Ni fydd gwastraff sydd wedi'i gymysgu gyda deunydd sy'n ardystiedig o dan PAS neu Brotocol Ansawdd yn addas i'w ddefnyddio ar gyfer garddwriaeth neu ei wasgaru ar dir amaethyddol.

### C3 A ellir fyth gompostio ysgubion strydoedd a charthion gylïau a driniwyd, yn dilyn triniaeth fiolegol?

Gellir. Yn dilyn y driniaeth gychwynnol, mae'n bosibl y gellir compostio'r ffracsiwn organig os yw'r safle compostio wedi'i drwyddedu i dderbyn y gwastraff hwn sy'n gynnyrch y broses drin gyntaf, a fydd â chod gwastraff Pennod 19. Caiff ei ddynodi'n ddeunydd tebyg i gompost, gyda chod gwastraff 19 05 99, a chyfyngir ar ei ddefnydd terfynol. Mae cynnyrch compostio yn wastraff o hyd.

Fel arall, efallai y byddid yn caniatáu i safle triniaeth fiolegol fecanyddol dderbyn gwastraff cod 20 03 03 (h.y. ysgubion strydoedd a charthion gylïau nas triniwyd) ar gyfer ei drin, ac mae'n bosibl y bydd y broses yn cynhyrchu deunydd tebyg i gompost yn uniongyrchol o'r ffracsiwn organig heb fod yn rhaid i'r gwastraff fynd i gael rhagor o driniaeth fiolegol.

Ni ellir defnyddio deunydd tebyg i gompost i gynhyrchu compost neu weddillion treuliad o ansawdd o dan y PAS neu Brotocolau Ansawdd perthnasol [4].

Ni ellir gwasgaru deunydd tebyg i gompost ar dir amaethyddol, na'i ddefnyddio i adennill tir y bwriedir ei ddefnyddio ar gyfer amaethu. Ni ellir ei ddefnyddio ar safleoedd esempt, na'i wasgaru o dan esemptiad.

Efallai y bydd deunydd tebyg i gompost yn addas i'w wasgaru ar dir anamaethyddol at ddibenion adfer o dan drwydded amgylcheddol os oes gan y safle sy'n derbyn y gwastraff drwydded i dderbyn y math o wastraff a gynhyrchir. Mae hon yn ffordd arall o ddargyfeirio'r deunydd hwn o safle tirlenwi ar gyfer y Cynllun Lwfansau Tirlenwi. Gall deunydd tebyg i gompost a gynhyrchir o gompostio ysgubion strydoedd hefyd gyfrif tuag at Dargedau Adennill Awdurdodau Lleol yn y cyfamser, tra bod Llywodraeth Cymru'n ystyried meini prawf diwedd gwastraff. Hynny yn achos deunydd tebyg i gompost a gynhyrchir o wastraff ysgubion strydoedd yn unig, ar yr amod nas cymysgir â gwastraff o unrhyw ffynhonnell arall: nid felly unrhyw fath arall o ddeunydd tebyg i gompost, megis yr hyn a gynhyrchir gan Driniaeth Fecanyddol Fywydegol.

Disgwylir y bydd Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi rhagor o ganllawiau ar feini prawf diwedd gwastraff ar gyfer Targedau Adennill Awdurdodau Lleol maes o law.

### C4 A ellir anfon y ffracsiwn organig o ysgubion strydoedd a charthion gylïau a driniwyd i safleoedd esempt?

Na ellir, gweler *C3.* Ni ellir defnyddio deunydd tebyg i gompost ar safleoedd esempt na'i wasgaru o dan esemptiad.

---

wastraff mwyach.

[4] Gweler troednodyn 3

### C5 A ellir defnyddio gronynnau mân o ysgubion strydoedd a charthion gylïau a driniwyd ar gyfer adfer, adnewyddu neu wella tir?

Gellir, os yw'r gwastraff wedi cael triniaeth fecanyddol sy'n newid ei nodweddion i fath o wastraff sydd â chod Pennod 19, yna mae'n bosibl y bydd yn addas i gael ei dderbyn o dan drwydded amgylcheddol i'w ddefnyddio ar gyfer adennill, adfer neu wella tir.

### C6 A ellir adennill agreg o drin ysgubion strydoedd a charthion gylïau?

Gellir, os yw'r gwastraff wedi cael triniaeth fecanyddol sy'n newid ei nodweddion i fath o wastraff â chod Pennod 19 y gellir ei dderbyn o dan drwyddedau safonol neu bwrpasol, yna mae'n bosibl iddo gael ei adennill i'w defnyddio fel agreg.

O ran y Targedau Adennill Awdurdodau Lleol, gellir cyfrif agreg sydd wedi cael ei adennill mewn modd addas o ysgubion ar yr amod na chaiff ei ddefnyddio at ddibenion ôl-lenwi.

### C7 A ellir ailgylchu ysgubion strydoedd a charthion gylïau a driniwyd fel cynnyrch, a'i werthu i gyfleusterau diwastraff (e.e. y diwydiant agregau, gwneud ffyrdd, adeiladu)

Gellir, mae'n bosibl adennill y ffracsiwn agreg (graean mân, tywod a cherrig) o ysgubion strydoedd a charthion gylïau i raddau fel y gallai gydymffurfio â'r Protocol Ansawdd Agregau sy'n bodloni'r meini prawf diwedd gwastraff. Rhaid i'r ysgubion strydoedd a charthion gylïau cymysg fynd trwy broses drin sydd wedi eu trin i lefel a fyddai'n galluogi'r graean a adenillir i gael ei ddynodi fel gwastraff anadweithiol (cod 19 12 20 y Catalog Gwastraff Ewropeaidd) a fyddai'n dderbyniol fel gwastraff ffynhonnell ar gyfer y Protocol Ansawdd. Byddai angen hefyd profi'r graean a adenillir i fodloni'r manylion perthnasol ar gyfer defnydd fel agreg, a nodir yn Atodiad B i'r Protocol Agregau.

O ran y Targedau Adennill Awdurdodau Lleol, gellir cyfrif agreg a adenillir o ysgubion mewn modd addas os nad yw'n cael ei ddefnyddio at ddibenion ôl-lenwi. Gellir hefyd trin agregau i gyrraedd safonau'r Protocol Ansawdd Agregau fel y nodir uchod, er nad yw hwn yn ofyniad ar gyfer tunelleddau i gyfrif tuag at Dargedau Adennill Awdurdodau Lleol ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae canllawiau diweddar gan Lywodraeth Cymru wedi dweud bod meini prawf diwedd gwastraff yn cael eu datblygu ar gyfer y targedau adennill. Felly cynghorir awdurdodau lleol yn gryf i weithio tuag at sicrhau bod yr holl agregau a adenillir yn cydymffurfio â'r Protocol Ansawdd (os nad ydynt wedi gwneud hynny eisoes) er mwyn sicrhau y gall y tunelleddau hyn gyfrif pan fydd y meini prawf diwedd gwastraff yn cael eu cymhwyso i'r Targedau Adennill Awdurdodau Lleol yn y dyfodol.

### C8 A ellir anfon y ffracsiwn anorganig (e.e. graean) o ysgubion strydoedd a charthion gylïau a driniwyd i safleoedd esempt?

Gellir, ond dim ond os gyrrir y ffracsiynau anorganig (wedi'u hadennill trwy broses ddidoli fecanyddol, sydd â'r cod 19 12 09) i safle eithriedig i'w defnyddio ar gyfer adeiladu ar raddfa fach o dan eithriad U1[5].

## D Gwaredu Ysgubion Strydoedd a Charthion Gylïau

Er mwyn gwaredu ysgubion strydoedd a gweddillion soled carthion gylïau sydd wedi'u dad-ddyfrio, rhaid anfon y gwastraffoedd i gyfleuster addas sydd wedi'i drwyddedu i dderbyn y math hwn o wastraff. Rhaid hysbysu'r cyfleuster gwaredu cywir i WDF er mwyn cydymffurfio â'r Cynllun Lwfansau Tirlenwi a'r Targedau Adennill i Awdurdodau Lleol.

### D1 A ellir gwaredu ysgubion strydoedd a charthion gylïau ar safle tirlenwi anadweithiol?

Na ellir, dynodir y gwastraffoedd yn rhai nad ydynt yn beryglus, cod gwastraff 20 03 03, ac

[5] Defnyddio gwastraff ym maes adeiladu

nid ydynt yn anadweithiol[6].

### D2 A ellir gwaredu ysgubion strydoedd a charthion gylïau mewn cyfleuster esempt?

Na ellir, nid oes unrhyw esemptiadau gwaredu sy'n cynnwys y cod gwastraff 20 03 03.

### D3 A ellir gwaredu ysgubion strydoedd a charthion gylïau ar safle tirlenwi anadweithiol neu safle esempt os cânt eu cymysgu gyda deunyddiau anadweithiol megis pridd neu gerrig?

Na ellir. Nid yw ei gymysgu gyda gwastraffoedd eraill yn gwneud gwastraff yn anadweithiol. Rhaid peidio ag ail-godio gronynnau mân neu raean a cherrig o weddillion ysgubion strydoedd a charthion gylïau sydd wedi eu cymysgu gyda gwastraffoedd eraill yn ddeunydd anadweithiol (e.e. codau gwastraff 17 05 04 neu 20 02 02) naill ai er mwyn eu gwaredu neu fel deunydd adfer. Byddai angen nodweddu a dynodi'r gwastraff â chod gwastraff priodol o'r Rhestr Gwastraffoedd.

### D4 A ellir gwaredu ysgubion strydoedd a charthion gylïau ar safle tirlenwi nad yw'n beryglus?

Gellir, os yw'r safle tirlenwi wedi'i drwyddedu i dderbyn cod gwastraff 20 03 03.

### D5 A ellir gwaredu ysgubion strydoedd a charthion gylïau mewn llosgydd?

Gellir, os yw'r llosgydd wedi'i drwyddedu i dderbyn cod gwastraff 20 03 03.

### D6 A ellir anfon ysgubion strydoedd a charthion gylïau a driniwyd i safle tirlenwi anadweithiol i gael eu gwaredu?

Gellir, os yw'r driniaeth wedi adennill y ffracsiwn anadweithiol (cerrig) o'r gwastraff, ac y caiff ei ail-godio'n god gwastraff Pennod 19 anadweithiol, gellid gwaredu'r ffracsiwn anadweithiol hwn ar safle tirlenwi anadweithiol. Rhaid bod y safle tirlenwi'r wedi'i drwyddedu i dderbyn y math penodol hwn o wastraff Pennod 19 a rhaid i'r cynhyrchydd gwastraff samplu'r gwastraff i sicrhau ei fod yn bodloni'r meini prawf derbyn gwastraff.[7]

Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd angen i'r nodweddu sylfaenol gynnwys profi i ganfod cyfansoddiad cemegol y gwastraff. Bydd hyn yn cynnwys dadansoddi'r cyfansoddiad (i wirio nad yw'r gwastraff yn beryglus) a dadansoddiad trwytholchi.

Os yw'r gwastraff wedi cael ei gynhyrchu trwy gyfuno gwastraffoedd o nifer o safleoedd, ac/neu os na wyddys y potensial i lygru, yna mae'n rhaid profi'r gwastraff canlyniadol i ddangos ei fod yn anadweithiol cyn ei waredu.

Rydym yn disgwyl i gyfleusterau trin gwastraff yn fecanyddol sy'n anfon gronynnau mân o ysgubion strydoedd a charthion gylïau a driniwyd i safleoedd tirlenwi

---

[6] Ystyr 'gwastraff anadweithiol' yw gwastraff nas trawsffurfir yn ffisegol, yn gemegol nac yn fiolegol i unrhyw raddau sylweddol. Ni fydd gwastraff anadweithiol yn toddi, yn llosgi nac yn adweithio'n ffisegol neu'n gemegol fel arall, yn bioddiraddio nac yn effeithio'n andwyol ar ddeunydd arall y daw i gysylltiad ag ef mewn modd sy'n debyg o lygru'r amgylchedd neu niweidio iechyd dynol. Rhaid i holl drwythedd a chynnwys llygryddol y gwastraff, ac ecowenwyndra y trwytholch, fod yn ansylweddol, ac yn benodol, rhaid iddo beidio â pheryglu ansawdd dŵr wyneb a/neu ddŵr daear.

[7] Rhaid i bob gwastraff a dderbynnir ar safleoedd anweithredol trwyddedig (i'w gwaredu) fodloni Meini Prawf Derbyn Gwastraff ar gyfer safleoedd tirlenwi anweithredol. Rhaid 'Nodweddu'n Sylfaenol' yr holl wastraff a dderbynnir mewn safle tirlenwi i'w waredu. Mae hyn yn golygu nodweddu'n llawn yr holl wastraff trwy gasglu'r holl wybodaeth angenrheidiol i sicrhau gwaredu'r gwastraff yn ddiogel yn y tymor hir. Cyfrifoldeb cynhyrchydd y gwastraff yw darparu'r wybodaeth hon, ac felly ei gyfrifoldeb ef yw cadarnhau bod y gwastraff yn anadweithiol.

anadweithiol fod â manylion nodweddu sylfaenol llawn ar gyfer y gwastraff a gynhyrchir, gan gynnwys gwybodaeth profi.

Byddem yn disgwyl i safleoedd tirlenwi anadweithiol sy'n derbyn ysgubion strydoedd a nithion carthion gylïau a driniwyd adolygu'r nodweddu sylfaenol, a bod â chynllun samplu i brofi cydymffurfiaeth yn barhaus oni bai bod pob llwyth o wastraff a dderbynnir o'r cyfleuster trin eisoes wedi bod yn destun nodweddu sylfaenol a phrofi llawn.

## Rhagor o wybodaeth

Os oes arnoch angen rhagor o wybodaeth ynghylch rhoi gwybod am adennill a gwaredu ysgubion strydoedd a charthion gylïau, cysylltwch ag:

Ebost:
julie.tate@naturalresourceswales.gov.uk (ar gyfer rheoleiddio gwastraff)
john.fry@naturalresourceswales.gov.uk (for TAALl/CLT)
Alexander.ross@naturalresourceswales.gov.uk (ar gyfer hysbysu WasteDataFlow)

## Dolenni i ddogfennau eraill

### Gwefan Asiantaeth yr Amgylchedd

**Protocolau Ansawdd:**
http://www.environment-agency.gov.uk/business/sectors/142481.aspx

**Trwyddedau safonol ar gyfer gweithrediadau gwastraff**
http://www.environment-agency.gov.uk/business/topics/permitting/118404.aspx

**Storio a dad-ddyfrio ysgubion strydoedd**
http://www.environment-agency.gov.uk/static/documents/Business/NWFD_3.pdf

http://www.environment-agency.gov.uk/static/documents/Business/MWRP_RPS_065_v2_Dewatering_of_street_sweepings_May_2012.pdf

**Trin gwastraff (esemptiadau)**
http://www.environment-agency.gov.uk/business/topics/permitting/115578.aspx

**Defnyddio gwastraff (esemptiadau)**
http://www.environment-agency.gov.uk/business/topics/permitting/115597.aspx

### Gwefan WasteDataFlow
http://www.wastedataflow.org/

### Gwefan Legislation.gov.uk
**Mesur gwastraff (Cymru) 2010 (Targedau ar gyfer ailgylchu, paratoi i ailddefnyddio a chompostio)**
http://www.legislation.gov.uk/cy/mwa/2010/8/section/3/enacted/welsh

### Gwefan Llywodraeth Cymru
**Canllawiau diweddaraf i gefnogi'r targedau ar gyfer ailgylchu, paratoi i ailddefnyddio a chompostio:**

http://wales.gov.uk/consultations/environmentandcountryside/waste-guidance-stage-three/?skip=1&lang=cy